

WALTERS, IRWYN RANALD (1902-1992), cerddor a gweinyddwr

Enw: Irwyn Ranald Walters
Dyddiad geni: 1902
Dyddiad marw: 1992
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cerddor a gweinyddwr
Maes gweithgaredd: Addysg; Cerddoriaeth; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil
Awdur: Rhidian Griffiths

Ganed Irwyn Walters ar 6 Rhagfyr 1902 yn Rhydaman, yr ail o chwech o blant William Walters a'i wraig Elizabeth (ganwyd Morgan). Cadwai ei dad siop baco a phapurau yn Clifton House ar sgwâr y dref, ac roedd hefyd yn solffawr pybyr ac yn arweinydd y gân yng nghapel y Bedyddwyr, Ebeneser. Cafodd Irwyn ei wersi cerddoriaeth cyntaf gan **Gwilym R. Jones** (1874-1953), arweinydd côr cymysg Rhydaman, a bu'n astudio'n ddiweddarach gyda **David Vaughan Thomas**. Ef oedd y disgybl cyntaf yn Ysgol Sir Dyffryn Aman i astudio cerddoriaeth yn bwnc i'r Dystysgrif Uwch, ond pan aeth i Aberystwyth cymerodd radd mewn Ffrangeg i ddechrau, cyn cwblhau gradd mewn cerddoriaeth. Yn yr ysgol roedd wedi ffurfio triawd gyda'i frawd Merfyn ar y sielo a **Rae Jenkins** (1903-1985), a ddaeth maes o law yn arweinydd adnabyddus, yn canu'r ffidil. Fel myfyriwr i **Henry Walford Davies** cafodd Irwyn Walters gyfle i weld arweinyddion enwog a ddaeth i'r gwyliau cerdd, gan gynnwys Adrian Boult, Gustav Holst, Ralph Vaughan Williams a Henry Wood.

Cafodd ei swydd gyntaf fel athro yn Bideford cyn symud yn 1928 i Islington a chael ei benodi'n organydd capel Cymraeg Willesden Green. Symudodd wedyn i Ysgol y Brenin Edward VI yn Stafford, ac yno ffurfiodd gerddorfa linyddol o'r enw Stafford Strings. Yn 1936 fe'i penodwyd yn Arolygwr Ysgolion mewn cerddoriaeth i Gymru gyfan, a symud i Abertawe, lle y bu fyw am weddill ei oes. Bu'n arwain Cerddorfa'r Wyl yno ac wedi 1939 y Gerddorfa Ffilharmonig Gymreig. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd bu'n trefnu cyngherddau i artistiaid o Lundain ym mhob rhan o Gymru.

Yn 1943 dechreuodd drefnu i ddisgyblion o Gymru fynychu cyrsiau cerddorfaol yn Lloegr, ond am fod cymaint o alw penderfynodd y dylid creu darpariaeth benodol i Gymru, ac yn 1946, trwy gefnogaeth Awdurdod Addysg sir Fynwy ac athrawon cerdd yn gyffredinol, sefydlwyd Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru, gyda Clarence Raybould yn arweinydd ac Irwyn Walters yn gyfarwyddwr. Gweinyddwyd y Gerddorfa wedi hynny gan Gyd-Bwyllgor Addysg Cymru, a pharhaodd cysylltiad Walters â hi tan 1957. Ymdeolodd o'r Weinyddiaeth Addysg yn 1963, a bu'n weithgar iawn wedi hynny fel arholwr ar ran Coleg Cerdd y Drindod ym mhob rhan o'r byd.

Priododd â Margaret Jane Edwards (marw 1992) a chawsant un mab, y cyfansoddwr **Gareth Walters**. Bu farw Irwyn Walters yn Abertawe ar 21 Tachwedd 1992.

Awdur

Rhidian Griffiths

Ffynonellau

Cerddoriaeth Cymru, 9/6 (1993)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20821153

Dyddiad cyhoeddi: 2014-06-09

Hawlfraint Erthygl: <https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

Prifannu

Arddull APA

x

Griffiths, R., (2014). WALTERS, IRWYN RANALD (1902-1992), cerddor a gweinyddwr. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c10-WALT-RAN-1902>

Prifannu

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government